

24 Hydref 2024

Parthed: Ymgynghoreion mewn perthynas â Threfniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i Gau Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gymuned Tonyrefail.

Annwyl Aelodau'r Cabinet,

Rwyf wedi cael fy nghyfarwyddo gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant y Cyngor i gyfleu sylwadau'r Aelodau mewn perthynas â **Threfniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymuned Tonyrefail**, ac i'r sylwadau gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant gyfle i weithredu fel ymgynghoreion ac fe roddon nhw eu hadborth a'u sylwadau mewn perthynas â'r cynnig yn ystod ei gyfarfod ar 24 Hydref 2024. Cafodd Aelodau drafodaeth adeiladol mewn perthynas â'r adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

Mae modd bwrw golwg ar drafodaethau llawn y pwyllgor ar yr eitem hon **yma**.

I grynhoi, cafodd y pwyntiau canlynol eu trafod mewn perthynas â Threfniadaeth Ysgolion Statudol - Cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymuned Tonyrefail.

- Nododd Aelod y dylai unrhyw benderfyniad a gaiff ei wneud ar ôl yr ymgynghoriad fod er budd pawb, a dylai unrhyw benderfyniad ystyried pob agwedd, gan gynnwys cludiant a niferoedd disgyblion.
- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynglŷn â chapasiti Ysgol Gymuned Tonyrefail, gyda chynnydd mewn lleoedd, ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, gan nodi bod canran uchel o blant eisoes yn mynychu Ysgol Gymuned Tonyrefail, yn lle eu hysgol ddalgylch, e.e. Ysgol Gynradd Gymuned Hendreforgan ac Ysgol Gynradd Cwmlai, a gofynnodd am ystyriaeth gynnar i frodyr a chwiorydd, wrth gydnabod y Cod Derbyn i Ysgolion.
- Cododd Aelod bryderon, a oedd hefyd yn cydnabod bod nifer o dablau yn yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r disgyblion hynny oedd yn mynychu Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg y tu allan i'r dalgylch, am y goblygiadau a'r effaith ar y disgyblion hynny ar gludiant o'r cartref i'r ysgol sydd efallai eisoes yn teithio i Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, a fyddai â phellteroedd pellach i'w teithio.
- Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch cadernid y data a gafodd eu darparu yn yr adroddiad, gan wneud sylwadau ar y fformat dryslyd gyda nifer o setiau data wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a chydabod y data a gafodd eu darparu gan Aelodau lleol, gan amlygu cyfeiriad at ragamcanion niferoedd o ran tai a disgyblion, nad oedd yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad. Gofynnwyd am ddadansoddiad cadarn o'r holl ddata yn yr adroddiad i'w gyflwyno yn ôl i'r Cabinet.
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd y byddai plant wrth wraidd y penderfyniad a wnaed, ac roedd yn pryderu y gallai rhai gael trafferthion ariannol o ganlyniad i'r cynnig.

- Gan gydnabod bod prisiau eiddo wedi codi'n aruthrol, a chan ystyried ffordd ddeuol yr A4119, holwyd a fyddai gan Ysgol Gymuned Tonyrefail ddigon o gapasiti ar gyfer twf yn yr ardal yn y dyfodol, pe bai effaith andwyol i fyny'r cwm.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch ail-bwrpasu ystafelloedd dosbarth yn Ysgol Gymuned Tonyrefail, a oedd yn cael eu defnyddio fel man ategol ar hyn o bryd, ac roedd yn pryderu bod hyn yn rhoi hyd yn oed mwy o bwysau o ran yr hyn y mae'r gofod yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer ar hyn o bryd.
- Roedd Aelod a gyfeiriodd at ymweliad diweddar ag Ysgol Gymuned Tonyrefail gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn pryderu bod rheoli traffig o amgylch yr ysgol yn heriol, yn enwedig ar yr ochr gynradd, a gofynnodd am sicrwydd ynghylch effaith nifer ychwanegol o ymwelwyr gan rieni a gwarcheidwaid, ynghyd â defnydd ychwanegol posibl o gerbydau, gan gydnabod yr effaith ganlyniadol o ran cynaliadwyedd a'r ôl troed carbon.
- Gofynnodd Aelod a ymgynghorwyd â'r gymuned leol ynghylch goblygiadau traffig cynyddol posibl a nifer yr ymwelwyr gan nodi nad oedd cyfeiriad penodol at hyn yn yr asesiad o'r effaith.
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd na fyddai cyfyngiadau ar niferoedd clybiau brechwast ar gyfer Ysgol Gymuned Tonyrefail, gyda'r posibilrwydd o gynyddu niferoedd sy'n mynychu'r clwb brechwast.
- Mynegodd Aelod bryder ynghylch dyraniad ffurfiol o staff addysgu ychwanegol, gan gydnabod y posibilrwydd y byddai dros 30 o ddisgyblion yn symud i Ysgol Gymuned Tonyrefail, wrth gydnabod bod yr ysgol mewn diffyg yn y gyllideb.
- Dywedodd Aelod fod tudalen 33 o'r adroddiad yn datgan y byddai Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg yn parhau i fod â dosbarthiadau o grwpiau blwyddyn cymysg ac y gallai gorfod trefnu dosbarthiadau yn y fath fodd achosi heriau sylweddol o ran addysgu a dysgu, ac felly gofynnodd a oedd unrhyw sicrwydd pe bai plant yn symud i Ysgol Gymuned Tonyrefail, fydden nhw byth yn cael eu rhoi mewn dosbarth cymysg?
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod ymgynghoreion priodol yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), gan gydnabod y cyfle ar gyfer Trochi yn y Gymraeg, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, pe byddai'r cynnig yn mynd rhagddo.
- Gofynnodd yr Aelodau i fanylion pellach fod ar gael i'r Cabinet mewn perthynas â "llwybrau cerdded diogel" mewn perthynas â'r cynigion.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch y ffigwr ôl-groniad cynnal a chadw a restrwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â hygyrchedd, yn ogystal â faint oedd y costau adnewyddu dros y 10 mlynedd diwethaf, a beth oedd diben hwn, gan gydnabod y byddai'r wybodaeth yma'n cael ei darparu ar gyfer yr adroddiad yn ôl i'r Cabinet.

Yn gywir



Christian Hanagan Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu